Planning Pembrokeshire's Future
Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol
Cynllunio Dyfodol Sir Benfro

# Cyngor Sir Penfro

## Cynllun Datblygu Lleol

## Adroddiad Monitro Blynyddol – blwyddyn 10

## 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb o Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Sir Penfro 2022-2023 | 3 |
| Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl | 8 |
| Atodiad 2 – Cyfanswm Cronnol Nifer y Tai a Gwblhawyd a Thrywydd Tai | 35 |
| Atodiad 3 – Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd | 42 |
| Atodiad 4 – Dyraniadau lle mae angen Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect | 51 |
| Atodiad 5 – Dadansoddiad o Dai a Gwblhawyd 2013-2021 fesul lleoliad | 57 |
| Atodiad 6 – Adborth gan Randdeiliaid | 62 |

# Crynodeb o Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Sir Penfro 2022 - 2023

1) Mabwysiadodd Cyngor Sir Penfro y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ym mis Chwefror 2013. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) bob blwyddyn, gyda mewnbwn rhanddeiliaid, a chyflwyno hwn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Mae'r AMB yn seiliedig ar y targedau a'r trothwyon a nodir yn Atodiad 5 i'r CDLl – mae'r rhain yn asesu sut y mae'r cynllun yn gweithio ac a oes unrhyw feysydd sy'n peri pryder y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

2) Cafodd Adolygiad y CDLl ei oedi dros dro i ganiatáu ystyried goblygiadau'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2021, ynghylch llygredd ffosffadau yn rhannau di-lanw afonydd gwarchodedig Cymru. Mae hynny'n cynnwys dalgylchoedd yr afonydd Teifi a Cleddau yn Sir Benfro. Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu hadolygu ar sawl achlysur ers hynny. Mae goblygiadau'r canllawiau hyn yn sylweddol ac mae'n bosibl na fydd modd cyflawni pob un o'r dyraniadau a nodir yng Nghynllun Adneuo CDLl 2 2020. Rhagwelir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ail Gynllun Adneuo CDLl 2 yn gynnar yn 2024. Bydd Cynllun Adneuo 2 CDLl 2 yn Gynllun diwygiedig, sy'n ystyried popeth sydd wedi digwydd ers 2020. Bydd y wybodaeth ar dueddiadau a monitro yn yr AMB hwn yn cael ei hystyried gan yr Awdurdod a, lle bo'n briodol, bydd yn cael ei hadlewyrchu yn yr ail Gynllun Adneuo.

3) Cynhaliwyd yr Arolwg Cyflogaeth diwethaf yn 2022, ond nid yw'r canlyniadau wedi'u prosesu eto. Yr Arolwg Cyflogaeth diwethaf a gyhoeddwyd oedd hwnnw ar gyfer 2019. Cynhaliwyd arolygon tai llawn gan ddefnyddio cofnodion rheoli adeiladu ac ymweliadau safle yn 2022 a 2023. Cynhaliwyd yr arolwg manwerthu diwethaf ym mis Medi 2022 a bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yn Hydref 2023.

4) Mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwaith ar amrywiaeth o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi CDLl 1 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ymgynghorodd ar Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt, a'i fabwysiadu ym mis Tachwedd 2022, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae hefyd wedi ymgynghori ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer Asesiad o Gymeriad Tirwedd ac ar CCA ar gyfer Cymeriad y Morwedd rhwng mis Chwefror a mis Mai 2023, y cyntaf yn ddogfen CSP yn unig a'r ail yn ddogfen ar y cyd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Rhagwelir mabwysiadu dogfen CCA Cymeriad y Morwedd yn Hydref 2023.

Mae’r casgliadau allweddol o’r adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae cyfrannau'r caniatadau tai a roddwyd yn is na’r canrannau targed ar gyfer caniatâd mewn Trefi Ffocws.  Mae hyn bellach wedi cyrraedd trothwy 3 blynedd ar gyfer ei adolygu, gyda’r gyfran yn 39% yn 2022-2023, 38.2% yn 2021-2022 a 25.6% yn 2020-2021. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn ceisiadau mawr yn yr ardaloedd hyn dros y tair blynedd diwethaf a chynnydd mewn ceisiadau mewn Pentrefi Gwasanaeth yn ystod cyfnod yr AMB hwn.  Er bod gan y rhain lai o wasanaethau na Threfi Ffocws, mae’r aneddiadau hyn yn dal i gael eu hystyried yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer twf.

- Cyrhaeddwyd trothwyon mewn perthynas â’r holl ddyraniadau cyflogaeth strategol, heb unrhyw ddatblygiad eto ar safleoedd allweddol  Blackbridge a Threcwn.  Fodd bynnag, mae rhywfaint o gynnydd ar safleoedd megis Parc Busnes Llwyn Helyg a Pharc Gwyddoniaeth a Thechnoleg Sir Benfro, Doc Penfro.  Mae asesiad o’r angen am leoliadau cyflogaeth strategol ar gyfer Adolygiad CDLl wedi’i nodi yn yr Astudiaeth Economaidd Dwy Sir (2022) a ddiweddarwyd ac mae hyn yn dangos yr angen tymor hir sy’n parhau am leoliadau strategol.

- Mae’r canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 10 mewn perthynas â pherygl llifogydd yn dangos yr oedd pob un ac eithrio un o’r ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â gofynion TAN15 / Polisi CDLl GN.1 (maen prawf 7).  Yr eithriad oedd cynnig preswyl ar loriau uchaf adeilad presennol yng nghanol tref Hwlffordd, yr adroddir arno yn fanylach yn ddiweddarach yn yr AMB hwn.

- Nododd yr Arolygon Manwerthu lefelau eiddo gwag uwch na chyfartaledd y DU cyn ac ar ôl cyfnod clo Covid-19 ym mhob Canol Tref CSP heblaw am Arberth a Marina Aberdaugleddau.  Bu gostyngiad o hyd at 5% yn nifer yr eiddo gwag ar draws pob canol tref rhwng 2021/22 a 2022/23, ac eithrio Aberdaugleddau lle gwelwyd cynnydd o 1%.

- Mae cefnffordd A.40 Ffordd Osgoi Llanddewi Felffre a Chynllun Gwella Redstone Cross Llywodraeth Cymru yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.  Daw hyn â buddion i draffig ffyrdd sy’n defnyddio porthladd Abergwaun a hefyd i Dref Sirol Hwlffordd ac aneddiadau eraill sy’n agos i goridor ffordd yr A.40, yn ogystal â thynnu traffig strategol allan o bentref Llanddewi Felffre ei hun.

- Adeiladwyd 367 o gartrefi yn 2022-2023, o’i gymharu â 338 yn 2021-2022 a 340 yn 2020-2021.  Mae’r ffigyrau hyn yn uwch na’r ffigur ar gyfer 2019-2020 (267) ond yn is na lefelau 2018-2019 (419).  Y gyfradd adeiladu gyfartalog 10 mlynedd 2009-

2019 (cyn Covid) oedd 379 y flwyddyn, mae'r arolwg mwyaf diweddar felly'n awgrymu yr oedd adeiladu tai yn 2022/23 ychydig yn is na'r cyfartaleddau hanesyddol cyn Covid.

- Mae'r AMB hwn wedi nodi rhai newidiadau mewn perthynas â'r safleoedd tai strategol. Mae Slade Lane South a'r rhan fwyaf o Slade Lane North wedi newid perchnogaeth, a'r perchnogion newydd yw Pobl a Llywodraeth Cymru ar safle'r De a Llywodraeth Cymru yn unig ar safle'r Gogledd (ac eithrio'r ardal lai sydd ym mherchnogaeth Hill West Ltd ar wahân). Deallir bod Pobl yn bwriadu bwrw ymlaen â cham 1 datblygiad tai ar safle'r De, ac mae gan elfen hon o'r safle ganiatâd Materion a Gedwir yn ôl. Bu'r rhan honno o'r safle yn elwa o ddarpariaeth seilwaith a wnaed tra'r oedd o hyd ym mherchnogaeth Conygar. Mae elfen fach o'r safle Slade Lane North wedi'i chwblhau gan Hill West Ltd, ond mae gweddill y safle yn aros i gael ei ddatblygu.

- Ym Maesgwyn, datblygwyd y rhan o'r safle a elwir Parc Loktudi, ond mae rhannau eraill o'r safle yn parhau heb eu datblygu. Fodd bynnag, yn ystod AMB blwyddyn 10 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad 50 o gartrefi ar dir ger Clos-y-Bigney, a hwnnw'n gynnig 100% tai fforddiadwy gan Gymdeithas Tai Wales & West. Fel y nodwyd yn flaenorol, ad-drefnwyd y dyraniad tai ym Maesgwyn ar gyfer Cynllun Adneuo CDLl 2 2020 a bydd cynigion ar gyfer y safle hwn yn cael eu hystyried ymhellach ar y cyd â'r ail-ymgynghoriad o'r cam Adneuo sydd ar ddod, a fydd yn seiliedig ar Gynllun diwygiedig. Nid oes gan safle Shoals Hook Lane yn Hwlffordd ganiatâd cynllunio tai a chafodd ei ddad-ddyrannu gan Gynllun Adneuo 1 CDLl 2, 2020 oherwydd diffyg cynnydd o ran cyflawni (er ei fod yn parhau i fod o fewn ffin anheddiad Hwlffordd ac mae'n bosibl y caiff ei ddwyn ymlaen pe cynigid datblygiad addas).

- Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer tai fforddiadwy o ran caniatâd a thai a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

- Llofnodwyd cyfraniadau ariannol o £114,468.75 ar gytundebau A106 tuag at dai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyflwynir dadansoddiad llawn o hyn ar wefan y Cyngor.[1]

[1] https://www.sir-benfro.gov.uk/y-cynllun-datblygu-lleol-ar-ol-adroddiad-yr-arolygydd/cytundebau-adran-106

- Mae'r Awdurdod wedi cyrraedd y targedau a nodwyd ar gyfer darparu llety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn y Cynllun. Cyflwynwyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddaru i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2019 ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno arno eto.

- Roedd 92% o'r caniatadau a roddwyd ar gyfer tai o fewn ffiniau aneddiadau, a oedd yn is na'r targed o 98%, ond yn adlewyrchu cynigion derbyniol megis y rhai ar gyfer gweithwyr hanfodol TAN 6. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu arafu cyffredinol mewn cyflenwi safleoedd tai mwy o faint, yn enwedig yn y Trefi Ffocws, yn rhannol oherwydd amgylchiadau economaidd cenedlaethol.

- Mae'r Amcanion Arfarnu Cynaliadwyedd (AC) wedi cael eu hasesu ac mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn Atodiad 3 y ddogfen hon. Mae rhai meysydd yn peri pryder, gan fod canllawiau CNC ar lygredd ffosffadau (fel y trafodir ymhellach yn y paragraff isod) yn effeithio ar Amcan AC ansawdd dŵr, ac mae'n effeithio ar Amcanion AC economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai, yr economi a bioamrywiaeth.  Mae hyn yn bwysig, o ystyried y ffordd y mae'r canllawiau wedi effeithio ar ddatblygu. Fodd bynnag, mae effeithiau eraill y cynllun yn parhau i fod yn gadarnhaol ac nid ydynt wedi gofyn am gynnig mesurau lliniaru.  Lle nodir angen am fonitro pellach drwy'r AC, gwneir hyn fel rhan o'r broses adolygu'r Cynllun.

- Mae Monitro Arfarnu Rheoliadau Cynefinoedd (Atodiad 4) yn dangos bod sgrinio'r ARhC, ac Asesiad Priodol dilynol lle bo angen, wedi digwydd ar gyfer nifer o gynigion lefel prosiect sydd wedi codi yng nghyfnod blwyddyn 10 yr AMB.  Mae pob cais cynllunio yn cael ei sgrinio ar gyfer effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig. Mae cyhoeddiad Ionawr 2021 o ganllawiau newydd CNC ar ffosffadau yn rhannau di-lanw ardaloedd cadwraeth arbennig (ACA) afonol wedi cael effaith sylweddol ar allu datblygwyr i gyflwyno ystod o gynigion datblygu newydd (y rhan fwyaf ohonynt, ond nid pob un, ar gyfer tai) yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt.  Dim ond tri Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn Sir Benfro sy'n cynnig tynnu ffosffadau ar hyn o bryd.  Yn ogystal, bydd gosod cyfleusterau tynnu ffosffadau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Spittal o dan gynllun buddsoddi AMB 7 Dŵr Cymru.  Mae'n bosibl y bydd gosod y dechnoleg honno mewn mwy o weithfeydd o fewn amserlen AMB 7, ond o dan raglenni ariannu ar wahân.  Yn Sir Benfro, yr ardaloedd y mae canllawiau ffosffadau CNC yn effeithio arnynt yw elfennau afonol (di-lanw) dalgylchoedd dwyreiniol a gorllewinol Afon Cleddau a rhan o ddalgylch y Teifi o fewn y Sir.  Nid yw'r canllawiau'n berthnasol i elfennau llanw'r systemau afonydd hyn, er mae'n bosib y bydd cyhoeddi canllawiau pellach ar gyfer ardaloedd llanw afonydd gwarchodedig yn y dyfodol. Yn sgil canllawiau 2021 CNC ar gyfer elfennau di-lanw yr afonydd gwarchodedig, mae nifer y ceisiadau sydd angen ARhC lefel prosiect wedi cynyddu'n sylweddol.

Fel arfer, caiff casgliadau o’r AMB eu hadrodd yn ôl i Fforwm Asiantau Sir Benfro, ond ni fu hyn yn digwydd ar gyfer AMB Blwyddyn 9 oherwydd aelodau staff yn gadael. Fodd bynnag, trafodwyd un o’r prif bryderon ynghylch lefelau llygredd ffosffadau mewn afonydd gwarchodedig yn Sir Benfro a’i oblygiadau ar gyfer datblygu yn y dyfodol, yn y Fforwm Asiantau yn ystod cyfnod blwyddyn 10 yr AMB. Rhagwelir y bydd AMB blwyddyn 10 yn cael ei adrodd i Fforwm Asiantau Sir Benfro yn y modd arferol.

## Atodiad 1 – Fframwaith Monitro'r CDLl

Ffynhonnell Data: Monitro Cyflym o Geisiadau Cynllunio oni nodir yn wahanol mewn troednodiadau.

Mae nifer o Geisiadau Cynllunio a fyddai fel arfer yn cael eu penderfynu gan yr Awdurdod heb eu cynnwys o fewn yr AMB gan nad ydynt yn briodol at ddibenion yr adroddiad hwn, maent yn cynnwys:

- AG – Hysbysiadau Amaethyddol
- HG - Gwrychoedd
- CA – Ardaloedd Cadwraeth
- Pr Notf – Hysbysiadau Ymlaen llaw
- CLOPUD – Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon Arfaethedig
- EIA – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
- DC – Rhyddhau Amodau
- Diwygiadau Adran 73
- TF – Cwympo Coed
- LB – Adeiladau Rhestredig
- AD – Hysbysebion
- OHL – Llinellau Uwchben
- CLD - Tystysgrifau Datblygiad Cyfreithlon
- HS – Sylwedd Peryglus
- Diwygiadau ansylweddol i geisiadau
- Diwygiadau Adran 73 ôl-weithredol

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022 - 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Nifer y Ceisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt o dan y CDLl (ac eithrio Trin Coed, Datblygiadau Amaethyddol, Adran 73 ac Adeiladau Rhestredig): | - | | Cyfanswm: 749<br>Cymeradwywyd: 665<br>Gwrthodwyd: 82 | Cyfanswm: 859<br>Cymeradwywyd: 785<br>Gwrthodwyd:74 | Cyfanswm: 681<br>Cymeradwywyd: 614<br>Gwrthodwyd: 67 | Cyfanswm: 641<br>Cymeradwywyd: 589<br>Gwrthodwyd: 52 | Cyfanswm: 639<br>Cymeradwywyd: 554<br>Gwrthodwyd: 85 | Cyfanswm: 649<br>Cymeradwywyd: 564<br>Gwrthodwyd: 85 | Cyfanswm: 859<br>Cymeradwywyd: 715<br>Gwrthodwyd: 76<br>Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 68 | Cyfanswm: 546<br>Cymeradwywyd: 495<br>Gwrthodwyd: 51 | Cyfanswm: 728<br>Cymeradwywyd yn ddiamod: 2<br>Cymeradwywyd yn amodol: 626<br>Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol: 3<br>Gwrthodwyd: 97 | Cyfanswm:887<br>Cymeradwywyd yn ddiamod : 44<br>Cymeradwywyd yn amodol : 643<br>Cymeradwywyd yn Rhannol / Gwrthodwyd yn Rhannol : 77<br>Gwrthodwyd: 123 |
| **Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid hinsawdd (A)** | | | | | | | | | | | | |
| (Craidd) Faint o ddatblygiadau (fesul categori datblygiad TAN 15 paragraff 5.1) a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 ac nad oeddent fel arall yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.21 – v).* | Mae datblygiadau mewn parthau C1 a C2 yn unol â darpariaethau TAN 15 | Mwy nag 1 gymeradwyaeth o fewn blwyddyn ddatblygu mewn parthau C1 a C2 yn groes i ddarpariaethau TAN 15. | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.29 ha wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd amhreswyl mewn parth C1<br>0.48 ha wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd amhreswyl mewn parth C2<br>Dim cymeradwyaeth breswyl mewn parthau C1 neu C2. 1 uned wedi'i gwrthod mewn parth C2. | 0.05 ha wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd amhreswyl mewn parth C1<br>5.6 ha wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd amhreswyl mewn parth C2<br>Cymeradwywyd 0.3ha o dir o fewn parth llifogydd C1/C2, fodd bynnag, roedd 0.25ha o hyn ar gyfer ailddatblygu Marina Aberdaugleddau | 1 | 0 | 1 |
| **Crynodeb o'r Amcan Strategol: Lliniaru ac ymateb i her newid hinsawdd (A):**<br>Ym mlynyddoedd 1 i 5 yr AMB, bu pob cais parth llifogydd yn bodloni gofynion TAN 15 / Polisi CDLl GN.1 (maen prawf 7). Roedd hyn yn adlewyrchu parhau ag arferion gwaith da gan Swyddogion rheoli Datblygu. Ar gyfer blwyddyn 6, newidiwyd y dull o adrodd, i adlewyrchu gofynion Seilwaith Data Gofodol, fel y nodir uchod. Roedd canlyniadau AMB blwyddyn 8 yn cynnwys un cais o fewn y gorlifdir, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Adroddwyd i'r Pwyllgor Cynllunio nad oedd yr adroddiad yn cydymffurfio â GN.1 (7) a TAN 15 ond rhoddwyd mwy o bwyslais ar ystyriaethau perthnasol yn ymwneud ag adfywio canol trefi. Dangosodd y canlyniadau ar gyfer AMB blwyddyn 9 fod pob cais yn cydymffurfio â gofynion TAN 15 / | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi CDLl GN.1 (maen prawf 7). Yn AMB blwyddyn 10, cafodd un cynnig ei ganiatáu ar gyfer cynnig preswyl ym mharth llifogydd C2. Roedd hwn ar gyfer addasiad tri llawr uchaf eiddo yng nghanol y dref yn dri fflat un ystafell wely. Er yn groes i GN1 (maen prawf 7) a TAN 15, cafodd y cynnig ei ganiatáu oherwydd ei gyfraniad cadarnhaol at adfywio canol y dref. (Cyfeiriadau 21/1003/PA a 21/1024/LB). | | | | | | | | | | | | |
| **Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (I)** | | | | | | | | | | | | |
| Nifer a chyfran y caniatadau cynllunio tai ar wahanol lefelau'r hierarchaeth aneddiadau. | Mae 60% o ganiatadau mewn Trefi Ffocws | Caniatadau yn llai na 50% mewn Trefi Ffocws dros gyfnod o 3 blynedd.(Noder: nid yw'r canrannau'n hafal i 100% oherwydd talgrynnu) | Tref Ffocws 1,191 (77%) | Tref Ffocws 790 (65.3%) | Tref Ffocws 356 (39%) | Tref Ffocws 259 (37%) | Tref Ffocws 317 (52%) | Tref Ffocws 149 (69.9%) | Tref Ffocws 576 (74.5%) | Tref Ffocws 55(25.6%) | Tref Ffocws 60 (38.2%) | Tref Ffocws 53 (39%) |
| | | | Tref Wledig 55 (3.5%) | Tref Wledig 31 (2.6%) | Tref Wledig 43 (5%) | Tref Wledig 27 (4%) | Tref Wledig 110 (18%) | Tref Wledig 1 (0.5%) | Tref Wledig 1 (0.1%) | Tref Wledig 14 (6.5%) | Tref Wledig 5 (3.2%) | Tref Wledig 1 (<1%) |
| | | | Canolfan Wasanaethau 14 (0.9%) | Canolfan Wasanaethau 23 (1.9%) | Canolfan Wasanaethau 98 (11%) | Canolfan Wasanaethau 69 (10%) | Canolfan Wasanaethau 32 (5%) | Canolfan Wasanaethau 2 (0.9%) | Canolfan Wasanaethau 35 (4.5%) | Canolfan Wasanaethau 87 (40.5%) | Canolfan Wasanaethau 3 (1.9%) | Canolfan Wasanaethau 0 (0%) |
| | | | Pentref Gwasanaetha u 165 (11%) | Pentref Gwasanaetha u 303 (25%) | Pentref Gwasanaetha u 329 (36%) | Pentref Gwasanaetha u 279 (1%) | Pentref Gwasanaetha u 117 (19%) | Pentref Gwasanaetha u 24 (11.3%) | Pentref Gwasanaetha u 120 (15.4%) | Pentref Gwasanaetha u 38(17.7%) | Pentref Gwasanaethau 73 (46.5%) | Pentref Gwasanaetha u 68 (50%) |
| | | | Pentref Mawr Lleol 12 (0.8%) | Pentref Mawr Lleol 10 (0.8%) | Pentref Mawr Lleol 22 (2%) | Pentref Mawr Lleol 9 (1%) | Pentref Mawr Lleol 4 (1%) | Pentref Mawr Lleol 1 (0.5%) | Pentref Mawr Lleol 3 (0.4%) | Pentref Mawr Lleol 3 (1.4%) | Pentref Mawr Lleol 5 (3.2%) | Pentref Mawr Lleol 1 (<1%) |
| | | | Pentref Bach Lleol 15 (1%) | Pentref Bach Lleol 15 (1.2%) | Pentref Bach Lleol 10 (1%) | Pentref Bach Lleol 0 (0%) | Pentref Bach Lleol 1 (0.5%) | Pentref Bach Lleol 4 (1.9%) | Pentref Bach Lleol 2 (0.3%) | Pentref Bach Lleol 1 (0.4%) | Pentref Bach Lleol 0 | Pentref Bach Lleol 1 (<1%) |
| | | | Cefn Gwlad Agored 95 (6%) | Cefn Gwlad Agored 38 (3.1%) | Cefn Gwlad Agored 64(7%) | Cefn Gwlad Agored 48 (7%) | Cefn Gwlad Agored 27 (4.5%) | Cefn Gwlad Agored 32 (15%) | Cefn Gwlad Agored 37 (4.8%) | Cefn Gwlad Agored 17 (7.9%) | Cefn Gwlad Agored 11 (7%) | Cefn Gwlad Agored 14 (10%) |
| Arwynebedd tir a ddiogelwyd ar gyfer cynigion yn gysylltiedig â thrafnidiaeth a gollwyd i ddatblygiad. | 0% | Bydd angen ymchwilio i unrhyw golled | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 (ond gan nodi effaith fechan 14/0158/PA) | 0 (ond gan nodi effaith fechan 14/0158/PA) | 0 (ond gan nodi effaith fechan 14/0158/PA) | 0 (ond gan nodi effaith fechan 14/0158/PA) |
| Newid net yn y ddarpariaeth o gyfleusterau cymunedol o ganlyniad i ganiatâd cynllunio (arwynebedd a math)[4]. | Cynnal cyfleusterau allweddol | Colli mwy na 3 cyfleuster cymunedol o fewn unrhyw gyfnod o 3 blynedd. | Cyfleusterau newydd a enillwyd: Neuaddau Cymunedol: 0.39Ha Tŷ Tafarn: 1.35Ha Cyfleusterau Iechyd:1.30Ha Cyfleusterau | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd: Neuaddau Cymunedol 0.11Ha a enillwyd 0.03Ha a gollwyd Tŷ Tafarn: | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Tai Tafarn 0.09Ha a gollwyd Adeiladau crefyddol 0.53Ha a gollwyd | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol 0.97Ha a enillwyd Adeiladau crefyddol 0.05Ha a | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol 0.04Ha a gollwyd Adeiladau crefyddol - 0.03Ha a | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol 0.2Ha a enillwyd Adeiladau crefyddol 0 Cyfleusterau | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd Neuaddau Cymunedol 0.13 a enillwyd Adeiladau crefyddol 0.22 a gollwyd Cyfleusterau | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha) Neuaddau Cymunedol 0.04 a gollwyd Adeiladau crefyddol 0.29 a gollwyd Cyfleusterau | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha) Neuaddau Cymunedol 0 Adeiladau crefyddol 0 Cyfleusterau Addysg 0.29ha a enillwyd a | Cyfleusterau newydd a enillwyd ac a gollwyd (Ha)[2] Neuaddau Cymunedol 0 Adeiladau crefyddol 0 Cyfleusterau Addysg 0 Cyfleusterau |

[2] Noder: Os yw cyfleuster cymunedol wedi newid o un math i fath arall, nid yw hyn yn cael ei ystyried yn golled. Mae cyfleusterau newydd yn cynnwys estyniadau i arwynebedd safleoedd presennol (ac nid estyniadau i adeiladau o fewn arwynebedd safle bresennol) a newidiadau defnydd.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Addysg: 3.91Ha<br>Man Agored / Ardaloedd Awyr Agored: 2.52Ha<br>Eraill: 0.15Ha<br>Ni chollwyd unrhyw gyfleusterau yn gyfan gwbl | 0.13Ha a enillwyd<br>Cyfleusterau Iechyd: 0.04Ha a enillwyd<br>Cyfleusterau Addysg: 0.63Ha a enillwyd 0.06Ha a gollwyd<br>Man Agored / Ardaloedd Awyr Agored: 0<br>Eraill:0.32Ha a enillwyd 0.17Ha a gollwyd<br>Adeiladau crefyddol 0.90Ha a enillwyd<br>-0.29Ha a gollwyd | Siop gyfleustra leol a enillwyd 0.01Ha<br>Chwaraeon a hamdden<br>0.88ha a enillwyd 0.16Ha a gollwyd<br>Caffi a gollwyd 0.02Ha<br>Cyfleusterau Addysg a enillwyd 0.02Ha a gollwyd 0.26Ha | gollwyd<br>Cyfleusterau Addysg 1.11Ha a enillwyd<br>Man Agored / Ardaloedd Awyr Agored 0.02Ha a enillwyd<br>Chwaraeon a hamdden<br>0.28Ha a enillwyd<br>Cyfleusterau Iechyd 0.31Ha a enillwyd<br>0.80Ha a gollwyd | gollwyd<br>Cyfleusterau Addysg 0.036Ha a gollwyd<br>Cyfleusterau Iechyd 0.005Ha a enillwyd<br>Tai Tafarn 0.03Ha a gollwyd | Addysg 0<br>Cyfleusterau Iechyd 0.09Ha a enillwyd<br>Tai Tafarn 0<br>Chwaraeon a hamdden<br>0.19 a enillwyd<br>Siop leol<br>0.03ha a enillwyd | Addysg 0<br>Cyfleusterau Iechyd 0<br>Tai Tafarn 0.09 a gollwyd<br>Chwaraeon a hamdden 0.86 a enillwyd<br>Siop leol 0<br>(Eraill (gorsaf heddlu a gollwyd 0.04; banc 0.02 a gollwyd; cyfleusterau angladdau a enillwyd 0.5, claddfa 0.97 a enillwyd) | Addysg 0<br>Cyfleusterau Iechyd 0.07 a gollwyd<br>Tai Tafarn 0.07 a gollwyd<br>Chwaraeon a hamdden 0<br>Siop leol 0 (0.03 ha a enillwyd a 0.03ha a gollwyd) | 0.18ha a gollwyd<br>Cyfleusterau Iechyd 0<br>Tai Tafarn 0<br>Chwaraeon a hamdden 0.05 a enillwyd<br>Siop leol 0 | Iechyd 0.14ha a enillwyd<br>Tai Tafarn 2<br>Chwaraeon a hamdden 0.18ha a enillwyd<br>Siop leol 0 |

| Dangosydd CDLI | Targed | Trothwy | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022 - 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel y gwasanaethau o fewn aneddiadau gwledig. | Nid yw gwasanaethau mewn aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau yn sylweddol is nag yn Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2008 | Monitro wrth Adolygu'r Cynllun (2017) – byddai newid 10% yn nifer yr aneddiadau sy'n cyrraedd lefel pentref gwasanaethau yn gofyn am ymchwilio pellach. Nid yw'r trothwy wedi'i gyrraedd. Gweler Papur Cefndir CDLI 2 Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth | | | | | | | | | | |
| (Craidd) Capasiti (MW) y datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiatawyd. | Nid oes targed ond mae modd pennu un at ddibenion monitro'r CDLI, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir ym Mhecyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy LIC | Nid oes trothwy wedi'i nodi. | 108.427MW o gapasiti a ganiatawyd | 68.60 MW o gapasiti a ganiatawyd | 34.77MW o gapasiti a ganiatawyd | 6.11MW o gapasiti a ganiatawyd | 11.00 MW o gapasiti a ganiatawyd | 0.89MW o gapasiti a ganiatawyd | 3.60 MW o gapasiti a ganiatawyd | 0.40 MW o gapasiti a ganiatawyd | 10.71 MW o gapasiti newydd a ganiatawyd (ynghyd â chapasiti o 3.87 MW yn ychwanegol a ganiatawyd eisoes, ond gyda hyd oes wedi'i ymestyn o 25 mlynedd i 40) | 5.39 MW o gapasiti newydd a ganiatawyd |
| Swm y man agored ($m^2$) a ganiatawyd mewn perthynas â chyfanswm nifer yr anheddau a ganiatawyd. | Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd sydd yn fwy na 25% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA) | Darparu man agored cyhoeddus ar gyfradd sydd yn fwy na 35% yn is na'r gofyniad safonol (fel y nodir yn y CCA) adeg Adolygu'r Cynllun. | Ceir gwahanol safonau, yn seiliedig ar wahanol fathau o fannau agored. Er hwylustodd, defnyddiwyd safonau mannau chwarae anffurfiol. Mae'r rhain yn gofyn am ddarparu 5.5$m^2$ fesul person. Yn seiliedig ar gyfradd feddiannu gyfartalog o 2.2 o bobl fesul aelwyd (yr hyn a dybir yn CCA Rhwymedigaethau Cynllunio), mae hyn yn cyfateb i ofyniad am 12.1$m^2$ o fan agored anffurfiol fesul annedd. Erbyn 2018 mae 60,904$m^2$ wedi'i ddarparu (wedi'i rannu gan 4583 o anheddau), sy'n rhoi cyfradd o 13.2 $m^2$ fesul annedd. | | | | 2019/2020 – cymeradwywyd 777 o anheddau. Cymeradwywyd 14,700 metr sgwâr o fan agored = 18.9 metr sgwâr fesul annedd | | 2020/2021 - 10,220 metr sgwâr a ganiatawyd | | 2021 – 2022 – ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau tai o faint yn ystod y cyfnod monitro. | 4180 metr sgwâr o fan agored a gymeradwywyd. |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Gwella mynediad at nwyddau a gwasanaethau (l):**

Bu gostyngiad sylweddol yn nifer a chyfran y caniatadau cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl newydd (lle bu cynnydd net mewn anheddau) ar gyfer cyfnodau AMB 2020-2021, 2021-2022 a 2022-2023. Cafodd cyfanswm o 137 o anheddau preswyl newydd eu cymeradwyo'n amodol yn ardal y Cynllun rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023, roedd 53 o'r rhain wedi'u lleoli o fewn Trefi Ffocws, sy'n cyfateb i ychydig dros 40% o'r holl ganiatadau. Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn wedi'i sgiwio'n sylweddol gan y caniatâd ar gyfer 54 o gartrefi mewn un Pentref Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Er bod gan Bentrefi Gwasanaethau lai o wasanaethau na Threfi Ffocws, maent yn dal i gael eu hystyried yn lleoliadau cynaliadwy ar gyfer twf.

Ni chaniatawyd unrhyw fath arall o ddatblygiad ar gyfer ardaloedd o dir wedi'u diogelu ar gyfer cynigion sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn ystod AMB blwyddyn 10, heblaw am Farina Aberdaugleddau, fel y disgrifir isod. Mae nifer o'r cynlluniau a ddiogelwyd bellach wedi'u hadeiladu, neu wedi'u gweithredu'n rhannol. Mae gan eraill ganiatâd cynllunio ond nid yw'r gwaith adeiladu wedi cychwyn, gyda rhai ohonynt wedi'u dwyn ymlaen yn elfennau cynlluniau adfywio sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau tir. Mae ffordd osgoi Llanddewi Felffre a chynllun gwella Redstone Cross Llywodraeth Cymru yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Ar safle Blackbridge, Datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol, cafwyd cais ar gyfer cyfleuster biomas a allai fod wedi effeithio ar lwybr trafnidiaeth a ddiogelwyd (er ei fod yn un y bwriadwyd iddo ei hwyluso). Fodd bynnag, cafodd ei wrthod gan Weinidogion Cymru yn gynnar yn AMB blwyddyn 6. Bydd cynllun adfywio ym Marina Aberdaugleddau yn effeithio ychydig ar gynnig cyfnewidfa bysiau / rheilffordd Aberdaugleddau ond ni fydd yn atal nac yn peryglu ei weithredu (cais 14/0158/PA, a gymeradwywyd 01/11/19).

O ran cyfleusterau cymunedol, cafwyd nifer o geisiadau ar gyfer estyniadau i gyfleusterau cymunedol presennol nad ydynt wedi'u cofnodi gan nad oes cynnydd yng nghyfanswm y ddarpariaeth cyfleusterau cymunedol. Roedd y rhain yn ymwneud â chyfleusterau addysgol ychwanegol o fewn safleoedd ysgolion presennol ac estyniadau i dai tafarn presennol. Cafwyd darpariaeth newydd ar ffurf campfa a chlinig llygaid newydd. Caewyd dau dŷ tafarn, un yng Nghasmorys a'r llall yn Dreenhill. Nid yw ceisiadau sy'n cynnwys newid defnydd rhwng cyfleusterau cymunedol, neu lle gwnaed darpariaeth amgen eisoes, wedi'u cynnwys yma. Ym mhob achos, dangoswyd nad oedd y cyfleuster cymunedol yn ddichonadwy, nad oedd ei angen mwyach, neu fod cyfleusterau cymunedol amgen ar gael yn lleol, felly nid oes angen ymchwilio ymhellach i'r dangosydd hwn. Er gwaethaf colli'r cyfleusterau cymunedol hyn, roedd y cynigion yn dderbyniol o fewn fframwaith polisi'r CDLl.

Mae lefelau'r gwasanaethau o fewn aneddiadau wedi cael eu monitro fel rhan o Adolygu'r Cynllun. Gweler Adroddiad Arolwg Cyfleusterau Gwledig 2020 yn https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/cdli-2-aail-dystiolaeth.

Ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, yn ystod AMB blwyddyn 10, y prosiect mwyaf a gymeradwywyd oedd aráe solar ffotofoltäig 4 MW yng Ngwesty Bluestone. Cymeradwywyd prosiectau ynni adnewyddadwy eraill llai o faint ar gyfer gosodiadau solar ffotofoltäig, ynni gwynt a chynlluniau biomas. Yn ogystal, bu cymeradwyo pellach mewn perthynas ag ardaloedd profi ynni'r môr yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau. Gwrthodwyd cais Datblygu Arwyddocâd Cenedlaethol ar gyfer tri thyrbin gwynt ar raddfa fawr yn Refinery Road, Hundleton, gan Weinidogion Cymru. Cymeradwywyd capasiti o 5.39 MW o ynni adnewyddadwy newydd yn AMB blwyddyn 10. Ers AMB 4, mae'r capasiti newydd a gymeradwywyd wedi bod ar raddfa gymedrol o'i gymharu â'r hyn a gymeradwywyd ym mlynyddoedd cynnar y CDLl.

O ran Mannau Agored, cafodd CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, sy'n cyflwyno safonau, eu mabwysiadu ar 12 Medi 2016. Nid yw'r dangosydd monitro yn eglur gan nad yw'n gwahanu gofynion gwahanol y gwahanol fathau o fannau agored a dylid ystyried hyn yn yr Adolygiad o'r Cynllun. Mae'r dangosydd hefyd yn gofyn am gymharu maint y mannau agored (m2) a ganiateir mewn perthynas â chyfanswm nifer yr anheddau a ganiateir, er dim ond ar safleoedd sydd â thros 33 o anheddau y mae angen mannau agored. Yn yr Adolygiad o'r CDLl dylid ailystyried y dangosydd hwn, er mwyn darparu data mwy ystyrlon.

**Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E)**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar safleoedd dynodedig o fewn ardaloedd porthladdoedd a nodwyd (Blackbridge, Aberdaugleddau, hen safle ffatri Dewhirst, Wdig a Pharrog). | 100% erbyn diwedd cyfnod y Cynllun | 50% heb ganiatâd cynllunio adeg Adolygu'r Cynllun (2017). Naratif blynyddol i ddisgrifio'r cynnydd tuag at gyflawni. | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 | Blackbridge<br>0 |
| | | | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0 | Hen safle ffatri Dewhirst, Wdig<br>0<br>(rhan o safle a gymeradwywyd yn amodol ar gyfer datblygiad preswyl arbenigol i bobl hŷn ar 09/08/22) |
| | | | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 | Wdig<br>Parrog<br>0 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd tuag at gyflawni cynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd. | Cyflawni pob un erbyn 2021 | Os na sicrhawyd cyllid ar gyfer prosiect erbyn Adolygu'r Cynllun (2017).<br><br>Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau trafnidiaeth a ddiogelwyd ar y cyd â pharatoi fersiwn Adneuo CDLl 2. Mae Atodiad 4 o'r CDLl Adneuo 2 o 2020 yn nodi manylion y cynlluniau trafnidiaeth hynny y bwriedir eu diogelu drwy'r Cynllun newydd. Mae 7 cynllun wedi'u rhestru ar gyfer eu diogelu yn CDLl 2, ynghyd â'r rhaglen gysylltiedig, y ffynhonnell gyllid ar gyfer ei gweithredu a'r amserlen y disgwylir ei chyflawni. Bydd adolygu pellach o'r cynlluniau hyn ar y cyd â pharatoi CDLl 2, Cynllun Adneuo 2, gyda disgwyl ei gyhoeddi ddechrau 2024.<br><br>I grynhoi, mae sefyllfa 17 cynllun trafnidiaeth a ddiogelwyd yn CDLl 1 fel a ganlyn:<br>1) A40 Llanddewi Felffre i Benblewin – gweithredu ar y gweill, dygwyd ymlaen i CDLl 2, y cynllun bellach wedi'i ymestyn i'r gorllewin i Redstone Cross (i'r gogledd o Arberth).<br>2) Gwella'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr – heb ei weithredu ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>3) Rhwydwaith Dosbarthu Gogleddol – cyswllt Bulford Road – cwblhawyd ac felly ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>4) Prosiect Adfywio Cymunedol Penfro Cam 1 a Cham 2 – ni weithredwyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>5) Gwella mynediad Blackbridge a ffordd osgoi Waterston – ni weithredwyd, dygwyd ymlaen i CDLl 2 gan ei fod yn gysylltiedig â chynnig cyflogaeth mawr.<br>6) Llwybr Strategol Deheuol – Gwella coridor A477 Mynegbost Nash i'r Safle Ynni – y rhan fwyaf wedi'i weithredu ac felly heb ei ddwyn ymlaen i CDLl 2, ond dygwyd ymlaen un elfen na weithredwyd, sef Gwella Well Hill, i CDLl 2.<br>7) Canolbwynt Bysiau Abergwaun – gweithredwyd ar y cyd ag adfywio canol y dref ac felly ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>8) Cyfnewidfa reilffordd bysiau Gorsaf Reilffordd Wdig – gweithredwyd ac felly ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>9) Cyfnewidfa reilffordd bysiau Aberdaugleddau – ni weithredwyd ond dygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>10) Cyfnewidfa reilffordd bysiau Doc Penfro – gweithredwyd yn rhannol, dygwyd ymlaen un elfen weddilliol (maes parcio a chysylltiadau cerddwyr) i CDLl 2.<br>11) Gwella gorsaf reilffordd Clunderwen – cwblhawyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>12) Parcio a theithio Dinbych-y-pysgod – ni weithredwyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>13) Dargyfeirio a gwella cam 3 y B4318 Gumfreston i Ddinbych-y-pysgod – ni weithredwyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2. System rhybuddio llifogydd wedi'i rhoi ar waith yn lle dargyfeirio'r ffordd.<br>14) Adlinio B4320 Cil-maen – ni weithredwyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>15) A40 High Street i A487 West Street, cyswllt 'Simneiau', Abergwaun – gweithredwyd ac ni ddygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>16) Llwybr Rhannu Defnydd Hwlffordd i Arberth – gweithredwyd yn rhannol a dygwyd ymlaen i CDLl 2.<br>Prosiect Canol Tref Gynaliadwy Hwlffordd – wedi'i ddisodli gan gynlluniau mwy diweddar, gyda Chyfnewidfa Bysiau a Rheilffordd Hwlffordd wedi'i hychwanegu at gynlluniau a ddiogelwyd CDLl 2. Mae gwaith dymchwel y maes parcio aml-lawr wedi'i gwblhau a bydd adeiladu gorsaf fysiau newydd yn dilyn maes o law. |

**Crynodeb o'r Amcan Strategol: Adeiladu ar leoliad strategol y Sir ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni a phorthladdoedd (E):**

Nid oes gan y safle cyflogaeth strategol yn Blackbridge ganiatâd cynllunio cyfredol gysylltiedig â chyflogaeth. Mae'r safle hwn bellach yn eiddo i'r cwmni datblygu Egnedol, a gynhigiodd gyfleuster biomas ynghyd â nifer o brosiectau cysylltiedig ar gyfer y safle a ddyrannwyd a thir sylweddol y tu hwnt i hyn. Cyrhaeddodd y cynnig hwn y cam ymgeisio ac fe'i dosbarthwyd yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Fodd bynnag, gwrthododd Gweinidogion Cymru y cais ar 26/06/18.

Nid oes un o'r ddau safle yn Wdig wedi denu cais cynllunio sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ers mabwysiadu'r CDLl – fodd bynnag, mae cais preswyl a gymeradwywyd yn ddiweddar ar ran o hen safle Ffatri Dewhirst, ar gyfer datblygiad preswyl arbenigol i bobl hŷn.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r defnydd o safleoedd cyflogaeth strategol. Mae'r trothwy ar gyfer ymchwilio ymhellach wedi'i actifadu a chynhelir adolygiad o'r dyraniadau hyn ar y cyd â pharatoi CDLl 2.

O ran monitro cynlluniau trafnidiaeth, ni fu llawer o newid ers yr AMB diwethaf, heblaw am barhau i weithredu Ffordd Osgoi Llanddewi Felffre a Gwella Redstone Cross (Llywodraeth Cymru), gwaith dymchwel maes parcio aml-lawr Hwlffordd a'r paratoadau ar gyfer adeiladu gorsaf fysiau newydd ar y safle hwnnw. Mae hon yn un elfen o gynigion ailddatblygu canol y dref yn y Dref Sirol.

**Amcan Strategol: Cefnogi datblygu rôl nodedig trefi Sir Benfro, yn enwedig o fewn Ardal y Ddau Gleddau (F) ac Adfywio canol trefi a Chynnal a gwella'r economi wledig a threfol (G)**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau PS 4, PS 14, GN.12, GN.14 | 0 | Cymeradwyo mwy na 4 cais cynllunio yn groes i un polisi dros 4 blynedd. | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 | PS 4<br>0 |
| | | | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 | PS 14<br>0 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | GN.12<br>2 | GN.12<br>1 | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | GN.12<br>0 | GN.12<br>3 | GN.12<br>2 |
| | | | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 | GN.14<br>0 |

| Dangosydd CDLI | Targed | Trothwy | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022 - 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (Craidd) Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir yng nghanol trefi wedi'i fynegi fel canran o'r holl ddatblygiadau mawr a ganiateir. (TAN 4)* | 100% (mae'r ffigur yn eithrio cynlluniau y dyrannwyd safleoedd iddynt y tu allan i ganol trefi) | 90% o'r targed | 0% = 7052.6 metr sgwâr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi | 29% = 1472 metr sgwâr wedi'i leoli o fewn Canol Trefi a nodwyd allan o gyfanswm o 5124 metr sgwâr a ganiatawyd | 0% = 1254 metr sgwâr (net) a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi.<br>Dim cynigion manwerthu mawr o fewn canol trefi. | 0% = 2,120 metr sgwâr (net) a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi. | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau mawr perthnasol yn ystod cyfnod yr AMB hwn | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau mawr perthnasol yn ystod cyfnod yr AMB hwn | 0% = 2,805 metr sgwâr o fanwerthu mawr a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi. | 100% 2802 metr sgwâr o ofod mawr manwerthu, hamdden a swyddfeydd yng nghanol trefi | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau mawr perthnasol yn ystod cyfnod yr AMB hwn. | Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau mawr perthnasol yn ystod cyfnod yr AMB hwn. |
| Lefel arwynebedd llawr y datblygiadau manwerthu a ganiateir y tu allan i ganol trefi ac eithrio cynlluniau sy'n dod o dan Bolisi GN.15 Manwerthu ar Raddfa Fachu neu GN.10 (siop fferm). | 0% | Naratif ar unrhyw gynlluniau na chaniateir o dan Bolisi GN.15 neu GN.10. | 96% = 6,174.9 metr sgwâr | 71% = 3,688 metr sgwâr. | 100% = 1,254 metr sgwâr. | 100% = 2,120 metr sgwâr (net) | Cynnydd net o 200 metr sgwâr mewn siop bresennol | Cynnydd net o 328 metr sgwâr mewn gorsaf wasanaethau bresennol | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau y tu hwnt i GN.10 a GN.15 | Caniatawyd 421 metr sgwâr ar gyfer siop goffi gyrru trwodd, arwynebedd llawr ychwanegol mewn archfarchnad yn gysylltiedig â danfon i'r cartref. | Cynnydd net o 172 metr sgwâr mewn arwynebedd llawr manwerthu a ganiatawyd y tu allan i ganol trefi nad oedd yn dod o dan GN.10 na GN.15. | Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau y tu hwnt i GN.10 na GN.15. |
| Cynnydd tuag at gyflenwi dyraniadau Manwerthu. | 100% wedi'u cyflenwi erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. | Unrhyw ddyraniadau nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio erbyn Adolygu'r Cynllun (2017). Dechreuwyd adolygu'r Cynllun ar 5 Mai 2017. Ni fu unrhyw newid i statws dyraniadau manwerthu CDLI 1 ers dechrau adolygu'r cynllun.<br>RT/040/01 Safle Fred Rees, Hwlffordd – cais wedi'i gyflwyno a'i dynnu'n ôl ym mis Medi 2019.<br>RT/096/01 Canolfan Sant St Gofan – ni chyflwynwyd cais, safle manwerthu presennol yng nghanol y dref<br>RT/034/01 Hen Safle Ysgol Gynradd, Abergwaun – Mae cynllun ailddatblygu Cyswllt Simneiau, gan gynnwys estyniad bach bwyd manwerthu, wedi'i gwblhau. Mae elfennau o'r dyraniad sydd heb eu gweithredu.<br>RT/088/01 Hen Safle Ysgol Gynradd, Arberth – Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer manwerthu (defnyddiau Dosbarth A1 ac A3), preswyl ac adleoli llyfrgell. Agorwyd elfen bwyd a diod Hwb Arberth ym mis Rhagfyr 2021.<br>RT/050/01 Dyraniad siop fwyd Kingsmoor – Caniatâd wedi dod i ben.<br>Cyhoeddodd yr Awdurdod Astudiaeth Fanwerthu Ranbarthol ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion, sydd wedi darparu tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r angen i ddyrannu ar gyfer datblygiad manwerthu adeg adolygu'r cynllun. | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Newid ym mhresenoldeb defnyddiau A1 (nifer yr unedau ac arwynebedd llawr) mewn ffryntiadau manwerthu cynradd. | O leiaf 66% o'r ffryntiad llinellog yn ddosbarth defnydd A1 o fewn ffryntiadau cynradd | Llai na'r targed. | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Arberth Penfro Doc Penfro | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Hwlffordd Arberth Penfro | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Arberth Penfro Abergwaun | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Arberth Penfro Abergwaun | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Arberth Penfro Abergwaun | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Arberth Penfro Abergwaun | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Penfro Arberth | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Penfro Arberth | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Penfro Arberth | Llai na'r targed yng Nghanol y Trefi canlynol: Abergwaun Penfro Arberth |

| Dangosydd CDLl | Targed | Trothwy | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022 - 23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran yr unedau gwag ar y llawr gwaelod ym mhob Canol Tref (o fewn ffin y CDLl a nodwyd). [3] | Lefelau unedau gwag nad ydynt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU) | Lefelau unedau gwag 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (y DU). | DU 13.9% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Rhagfyr 2013) | DU 13.2% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Rhagfyr 2014) | DU 12.5% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Ionawr 2016) | DU 12.7% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Rhagfyr 2016) | DU 12.2% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Ail chwarter 2017). | DU 12.4% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, 2018) | DU 12.4% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol, Chwarter 2 2020) | DU 13.7% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol) Chwarter 4 2020 | DU 14.1% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol) Chwarter 1 2022 | DU 13.8% (Ffynhonnell: Cwmni Data Lleol) Chwarter 4 2022 |
| | | | Hwlffordd 9% | Hwlffordd 17% | Hwlffordd 18% | Hwlffordd 25% (16% | Hwlffordd 17% | Hwlffordd 17% | Hwlffordd 21% | Hwlffordd 25% | Hwlffordd 25% | Hwlffordd 21% |
